Clwstwr Uwchraddio Cynaliadwy

# ADRODDIAD BLYNYDDOL



Bwyd a Diod Cymru
Clwstwr Uwchraddio Cynaliadwy
Food & Drink Wales
Sustainable Scale Up Cluster

2022–2023

Cyllidwyd y prosiect hwn drwy Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru 2014–2020, a ariennir gan Lywodraeth Cymru a'r Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig. Cyflwynir gan BIC Innovation.



# CYNNWYS


04 | RHAGAIR

06 | CYFLWYNIAD A DIOLCHIADAU

08 | CIPOLWG AR Y CLWSTWR UWCHRADDIO CYNALIADWY

12 | ASTUDIAETH ACHOS: BLUESTONE BREWING CO

14 | HERIAU UWCHRADDIO A'R ECONOMI

16 | ADOLYGIAD O'R FLWYDDYN

18 | ASTUDIAETH ACHOS: MAMGU WELSHCAKES

22 | ASTUDIAETH ACHOS: CAPESTONE ORGANIC POULTRY

30 | EDRYCH TUA'R DYFODOL

# RHAGAIR



2022-2023 oedd ail flwyddyn gyflawni'r Clwstwr Uwchraddio Cynaliadwy. Bu'n flwyddyn heriol iawn i'r sector bwyd a diod a ninnau newydd fod drwy bandemig Covid-19. Gwelsom gyfraddau chwyddiant yn dechrau codi, a'r rhyfel yn Wcráin yn gwneud y sefyllfa'n waeth. Mae llawer o fusnesau bwyd a diod wedi gorfod ymdopi â chostau mewnbwn uwch ac amhosibl eu rhagweld, gan gynnwys costau ynni, llafur, pecynnu a chynhwysion allweddol, wrth geisio diwallu anghenion eu cwsmeriaid. Mae rhagfynegi a chyllidebu wedi mynd yn fwy fyth o her. Ac wrth i'r argyfwng costau byw ddechrau brathu, mae pasio rhywfaint o'r cynnydd mewn costau mewnbwn ymlaen i gwsmeriaid manwerthu a gwasanaethau bwyd wedi bod yn anodd.

Fel cadeirydd Grŵp Cynghori'r Clwstwr Uwchraddio Cynaliadwy a Phrif Swyddog Cyllid Puffin Produce, rwy'n deall y pwysau sydd ar fusnesau bwyd a diod Cymru o ddydd i ddydd wrth iddynt geisio canolbwyntio ar dwf hirdymor. Yn wir, ar adeg anodd fel hyn, nid yw'n syndod bod rhai busnesau yn canfod eu hunain yn canolbwyntio ar oroesi o ddydd i ddydd a chynnal llif arian er mwyn eu cario drosodd, gobeithio, i adegau mwy cadarnhaol yn y dyfodol pan fydd modd troi uchelgeisiau, unwaith eto, yn dwf ac uwchraddio. Er mai enw'r clwstwr yw "uwchraddio", gwn fod rheolwyr y clwstwr hefyd wedi bod yn helpu aelodau i ymdopi ac i oresgyn heriau "goroesi". Mae'r clwstwr yn canolbwyntio'n bennaf ar bedair prif her uwchraddio: mynediad at gyfalaf, capasiti, cymwyseddau a hyder. Mae'r heriau hyn yn berthnasol i fusnesau sy'n wynebu heriau goroesi, yn enwedig mewn cysylltiad â chyfalaf gweithio a pharhau fel busnes hyfyw.

Er gwaetha'r amodau economaidd anodd hyn, rwy'n dal yn argyhoeddedig bod cynorthwyo busnesau bwyd a diod i uwchraddio yn hanfodol i economi Cymru, yn enwedig gan fod y sector bwyd a diod wedi cael ei gydnabod fel economi sylfaen gan Lywodraeth Cymru. Mae ein sector yn gwneud cyfraniad mawr i economi Cymru a gall ddarparu swyddi medrus iawn – mae angen i ni ddal i rannu gwybodaeth ynglŷn â beth sy'n gweithio ac adeiladu cysylltiadau ar draws ein busnesau bwyd a diod llwyddiannus. Fel pwynt olaf, rwy'n falch o ddweud, ar ôl dwy flynedd o gefnogi busnesau bwyd a diod uchelgeisiol, bod gan y clwstwr dros 100 o aelodau sydd wedi elwa o gyfleoedd dysgu cymar-i-gymar, rhwydweithiau a phrofiad a gwybodaeth tîm y clwstwr.



## JON LANGMEAD

*Cadeirydd Grŵp Cynghori'r Clwstwr Uwchraddio Cynaliadwy; Prif Swyddog Cyllid, Puffin Produce*

# CYFLWYNIAD A DIOLCHIADAU

*Linda Grant, Cyfarwyddwr Rhaglen, y Clwstwr Uwchraddio Cynaliadwy*

Croeso i ail adroddiad blynyddol y Clwstwr Uwchraddio Cynaliadwy. Yn yr adroddiad hwn, rydym wedi tynnu sylw at weithgareddau a chyflawniadau'r clwstwr, a sut mae'r gweithgareddau hyn wedi helpu i fynd i'r afael â'r pedwar prif rwystr sy'n atal uwchraddio. Rydym yn falch iawn o rannu carreg milltir allweddol, sef y 100fed aelod yn ymuno â'r clwstwr ym mis Rhagfyr 2022.

Mae egwyddor sylfaenol y clwstwr yn deillio o'r gydnabyddiaeth bod angen i fusnesau bwyd a diod, llawer ohonynt yn gweithredu ar elw bach iawn, allu uwchraddio mewn ffordd fforddiadwy y gellir ei rheoli. Un risg allweddol wrth dyfu busnes yw "gorfasnachu", pan fydd busnes yn methu â sicrhau'r cyfalaf i ariannu'r twf a'r ehangu a all ddod gydag archebion/cwsmeriaid newydd. Felly, rydym yn defnyddio'r term "cynaliadwy" yn ei ystyr economaidd neu ariannol: mae twf busnes yn gynaliadwy oherwydd ei fod yn seiliedig ar reolaeth ariannol gadarn.

Mae gweledigaeth a datganiad cenhadaeth y clwstwr yn gyson â strategaeth y sector, "Gweledigaeth ar gyfer y Diwydiant Bwyd a Diod o 2021 – Adeiladu ar ein llwyddiant". Yn ein hadroddiad blynyddol cyntaf, nodwyd bod cadernid, adfer a rheoli risg wrth galon gweithgareddau'r clwstwr. Flwyddyn yn ddiweddarach, mae'r datganiad hwn mor berthnasol ag yr oedd pan oeddem yn gobeithio bod effeithiau gwaethaf Covid y tu ôl i ni. Yn ein hail flwyddyn, rydym wedi helpu aelodau'r clwstwr i ddatblygu eu dirnadaeth a'u dealltwriaeth ariannol, datblygu strategaethau i ymdopi ag ansicrwydd yn y gadwyn gyflenwi a chael gafael ar fewnbynnau allweddol a rheoli capasiti.

Hoffem ddiolch i'n rhanddeiliaid sydd wedi gweithio gyda ni yn ystod y flwyddyn. Rydym wedi bod yn gweithio mewn partneriaeth ag Ysgol Fusnes Caerdydd i dreialu rhaglen lleoliadau graddedigion busnes ar gyfer sector bwyd a diod Cymru. Rydym hefyd wedi bod yn gweithio mewn cysylltiad agos â'r Ganolfan Ymchwil Gweithgynhyrchu Uwch (AMRC Cymru) i helpu i fynd i'r afael â heriau capasiti a chynhyrchiant. Rydym hefyd yn falch bod ein clwstwr wedi'i gynnwys yn rhestr y Sefydliad Uwchraddio o raglenni sy'n cynnig cefnogaeth uwchraddio yng Nghymru.

Yn 2021 penodwyd Wavehill, cwmni ymchwil cymdeithasol ac economaidd, i gynnal gwerthusiad annibynnol o'r Clwstwr Uwchraddio Cynaliadwy. Rydym yn falch o uchafbwyntiau'r gwerthusiad, sydd i'w gweld ar dudalen 10 yn yr adroddiad hwn.

Rydym yn ddiolchgar i Lywodraeth Cymru am y gefnogaeth i ddatblygu'r clwstwr hwn, sy'n cael ei ariannu drwy Raglen Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020, sy'n cael ei hariannu gan Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig (EAFRD) a Llywodraeth Cymru. Cafodd y cyllid ei ymestyn a bydd yn dod i ben yn awr ddiwedd mis Mehefin 2023.



# GWELEDIGAETH A CHENHADAETH

## GWELEDIGAETH


Creu cymuned o fusnesau bwyd a diod Cymreig uchelgeisiol sy'n tyfu, gan sbarduno twf economaidd yn y sector a'r cymunedau y mae'r busnesau hyn yn gweithio ynddynt.

## CENHADAETH

Drwy weithio gyda diwydiant, y byd academaidd, y llywodraeth a rhanddeiliaid, bydd y clwstwr yn helpu busnesau i wreiddio sgiliau gwydnwch, adfer ac uwchraddio drwy gydweithio, gan alluogi arweinwyr busnes i asesu risgiau a chyfleoedd yn fedrus, gwneud penderfyniadau gwell a sicrhau cyfalaf, capasiti ac felly'r hyder i uwchraddio.

# CIPOLWG AR Y CLWSTWR UWCHRADDIO CYNALIADWY

## AELODAU'R CLWSTWR YN ÔL MAINT




Dros **100** o Aelodau yn y Clwstwr





**15** o gydweithredfeydd

**45** o Swyddi Wedi'u Creu

Dros **150** o Randdeiliaid

- **21%** Capasiti
- **46%** Cyfalaf
- **33%** Cymwyseddau

## GYDA PHWY RYDYM YN GWEITHIO




Dros **350** o Swyddi Wedi'u Diogelu

# ADBORTH O WERTHUSIAD ANNIBYNNOL[1]


Penodwyd Wavehill yn 2021 i gynnal gwerthusiad annibynnol o'r Clwstwr Uwchraddio Cynaliadwy. Fel rhan o'u gwerthusiad, maent wedi cyfweld ag aelodau'r clwstwr a rhanddeiliaid. Mae'r canfyddiadau wedi bod yn gadarnhaol iawn, gyda'r holl ymatebwyr yn adrodd bod y clwstwr wedi bodloni neu ragori ar eu disgwyliadau. Roedd meysydd fel llifoedd arian gwell, arbedion cost a gwell adferiad gorbenion ymhlith rhai o'r buddion a nodwyd gan aelodau'r clwstwr. Nododd aelodau hefyd lefelau gwell o hyder a dealltwriaeth ariannol.

I ba raddau y mae'r gefnogaeth wedi bodloni eich disgwyliadau?






A ydych wedi profi unrhyw rai o'r canlyniadau a ganlyn, a beth fyddai wedi digwydd pe na bai eich busnes wedi ymwneud â'r clwstwr?




Canlyniadau eraill

- Gwelliant yn lefelau hyder a dealltwriaeth ariannol aelodau'r clwstwr eu hunain ers ymuno â'r clwstwr, â ***56%*** yn rhoi sgôr o 4 neu 5 allan o 5 ar gyfer y sgil hon ***cyn*** iddynt ymuno â'r clwstwr, a'r ganran ***yn codi i 75% ar ôl cael cefnogaeth***.
- Y sgôr gyfartalog gyffredinol a roddwyd gan fusnesau ***wedi codi o 3.63 i 3.91*** ar ôl ymuno â'r clwstwr.
- 90% o'r busnesau yn dweud bod y clwstwr wedi eu galluogi i ddatblygu ***llwybr clir ar gyfer twf.***
- 86% o'r busnesau yn dweud bod y clwstwr wedi eu galluogi i ***ffurfio cysylltiadau/partneriaid busnes posibl newydd.***
- 82% o'r busnesau yn dweud bod y clwstwr wedi eu galluogi i ***ddatblygu sgiliau rheolaeth ariannol*** neu ***ddatblygu gwell dealltwriaeth o'u materion ariannol.***

1 Food and Drink Wales Sustainable Scale Up Cluster: Emerging Findings, Wavehill, Mai 2023

Bwyd a Diod Cymru
Clwstwr Uwchraddio Cynaliadwy
Food & Drink Wales
Sustainable Scale Up Cluster

BLUESTONE BREWING CO

Mae cwmni Bluestone Brewing bron yn ddeg oed. Mae'r bragdy, a sefydlwyd ar fferm yn Sir Benfro, wedi mynd o wneud cwrw casgen i dafarnau lleol i ychwanegu ystafell dap ar y safle yn Nhyddewi, ac erbyn hyn maent yn dosbarthu ledled y DU gan ddefnyddio eu rhwydwaith dosbarthu a'u cyfanwerthwyr eu hunain yn ogystal â gwerthu ar-lein.

> *"Rydym yn tyfu yn gyflym iawn, ond yn gynaliadwy hefyd. Erbyn hyn mae gennym dîm o staff amser llawn yn gweithio i ni, ac rydym yn dosbarthu casgenni, poteli a chaniau i bob cwr o'r du, ac yn allforio ychydig hefyd!"*



***Sut mae cael gwell gwybodaeth ariannol wedi helpu eich busnes?***

Rydym wedi tyfu bob blwyddyn ers i ni sefydlu'r busnes ddeng mlynedd yn ôl. Mae cael gwell gwybodaeth ariannol wedi helpu'r busnes i ddatblygu ffrydiau refeniw ariannol newydd. Mae wedi caniatáu i ni ddeall ein twf, a chynllunio mewn da bryd cyn mentro. Mae wedi golygu ein bod wedi symud ymlaen mewn ffordd gynaliadwy a chyfforddus, heb wneud camgymeriadau, ac rydym yn fodlon â'r ffordd y mae'r busnes yn tyfu.

***Sut mae'r Clwstwr Uwchraddio Cynaliadwy wedi eich helpu i gynllunio ar gyfer y dyfodol?***

Mae'r Clwstwr Uwchraddio Cynaliadwy wedi bod yn ddylanwadol iawn wrth ein helpu i gynllunio ar gyfer y dyfodol. Erbyn hyn rydym wedi cyrraedd sefyllfa gyda'r busnes lle rydym yn ystyried twf sylweddol yn y busnes a mwy o gapasiti, ond yn anffodus dyw hynny ddim yn bosibl yma. Mae'r Clwstwr Uwchraddio Cynaliadwy wedi ein helpu i ymchwilio i bethau fel Cyfarwyddwyr Anweithredol a all ein helpu ar y daith.

Mae'r Clwstwr Uwchraddio Cynaliadwy wedi trefnu llawer o weithdai lle rydym wedi gallu dysgu am Fanc Datblygu Cymru a gwahanol opsiynau cyllid i helpu â'n twf. Rydym hefyd yn gweithio gyda'r Clwstwr i baratoi cynllun busnes er mwyn i ni allu deall sut rydym yn mynd i dyfu, a sut y bydd yn bosibl ac yn ddichonadwy i ni wneud y newidiadau hynny yn ystod y blynyddoedd sydd i ddod.

***Amy Evans, Rheolwr Gyfarwyddwr, Bluestone Brewing***







# HERIAU UWCHRADDIO A'R ECONOMI

Mae'r Clwstwr Uwchraddio Cynaliadwy yn cynnwys dros 100 o aelodau, sydd, wrth iddynt ymuno â'r clwstwr, wedi nodi eu 5 prif her neu rwystr uwchraddio. Efallai fod manylion yr heriau hyn yn wahanol, ond mae themâu cyffredin wedi codi:

- Cynnal llif arian a chyfalaf gweithio
- Caffael cyllid ar gyfer twf
- Cynyddu capasiti
- Gwybodaeth rheoli o ansawdd da er mwyn gwella'r broses o wneud penderfyniadau a rheoli risg
- Rheoli costau ac adennill gorbenion

Mae'r themâu hyn yn gydnaws â'r pedwar peth y mae'r clwstwr yn canolbwyntio arnynt:

- Mynediad at Gyfalaf
- Mynediad at Gapasiti
- Gwella Cymwyseddau
- Yn arwain at Hyder i uwchraddio

Er bod aelodau'r clwstwr yn optimistaidd ynglŷn â thwf, mae ganddynt bryderon tebyg i'r hyn a welir yng nghanfyddiadau Adolygiad y Sefydliad Uwchraddio yn 2022, a ganfu fod Prif Swyddogion Gweithredol yn bryderus ynglŷn ag effaith ffactorau macro-economaidd ar eu gallu i gyflawni eu huchelgeisiau twf. Mae'r Sefydliad Uwchraddio yn nodi costau cynyddol, yr argyfwng ynni, gwaddol Brexit, oedi â chadwyni cyflenwi ac ansicrwydd geowleidyddol fel ffactorau sy'n achosi pryder – sydd i gyd yn ffactorau y mae aelodau'r clwstwr yn eu hadnabod. Mae'r Sefydliad Uwchraddio yn pwysleisio bod mynediad at farchnadoedd yn un o'r prif bryderon i fusnesau sydd eisiau tyfu (ym mhob sector). O ran busnesau bwyd a diod Cymru, rhoddir sylw i'r rhwystr hwn gan raglenni megis Cywain a rhaglenni datblygu masnach ac allforio Llywodraeth Cymru, felly nid yw'r Clwstwr Uwchraddio Cynaliadwy yn ceisio dyblygu darpariaeth sy'n bodoli'n barod. Er hyn, mae'r rhwystrau eraill sy'n cael eu cydnabod gan y Sefydliad Uwchraddio, sef mynediad at dalent a mynediad at gyfalaf twf, yn rhai rydym yn eu gweld ymhlith aelodau'r clwstwr, ac rydym wedi ceisio mynd i'r afael â hwy mewn partneriaeth â rhanddeiliaid a rhaglenni megis Banc Datblygu Cymru, Food Skills Cymru, Arloesi Bwyd Cymru, Academi Sgiliau Genedlaethol Bwyd a Diod ac Ysgol Fusnes Caerdydd.


Ar ôl nifer o flynyddoedd cythryblus, lle gwelwyd y pandemig, a'r Deyrnas Unedig yn gadael yr Undeb Ewropeaidd, rydym yn wynebu mwy fyth o ansicrwydd economaidd. Yng Nghymru, mae'r adroddiad chwarterol diweddaraf (Mawrth 2023) a gyhoeddwyd gan Dirnad Economi Cymru yn swnio'n ddigalon iawn, ac yn cyfeirio at ddirywiad mewn amgylchiadau economaidd, cynnydd mewn ansolfedd, costau benthyca yn cynyddu, mwy o bobl yn methu â thalu am fenthyciadau a llai o gyllid allanol ar gael. Gwelwyd gostyngiad syfrdanol mewn benthyciadau i fusnesau bach a chanolig eu maint yng Nghymru yn hanner cyntaf 2022.






Ffynhonnell: Dirnad Economi Cymru, Adroddiad Chwarterol, Mawrth 2023


Yn bryderus iawn, roedd gan hanner busnesau bach a chanolig Cymru sgôr credyd 'gofalus' ym mis Medi 2022.




Ffynhonnell: Dirnad Economi Cymru, Adroddiad Chwarterol, Mawrth 2023

Mae'r ystadegau hyn yn dangos y bydd yn mynd yn anodd i fusnesau bwyd a diod o Gymru sydd eisiau tyfu sicrhau cyfalaf twf oni bai y gallant ddangos achos busnes cadarn yn seiliedig ar fodelu ariannol cadarn.

Nododd Ffederasiwn y Busnesau Bach fod hyder busnesau bach a chanolig eu maint wedi lleihau ym mhob rhanbarth yn y DU yn Ch3 2022, o'i gymharu â Ch2.



# ADOLYGIAD O'R FLWYDDYN
CYFALAF



Er gwaetha'r amodau economaidd heriol a brofwyd yn 2022/23, mae'r Clwstwr Uwchraddio Cynaliadwy wedi dal i gefnogi ein haelodau drwy nifer o weithgareddau ac ymyriadau sy'n ceisio helpu i oresgyn y rhwystrau sy'n atal uwchraddio.

## MYNEDIAD AT GYFALAF

Fel un o'r rhwystrau y cyfeirir ato amlaf, boed yn gyfalaf gweithio tymor byr neu'n gyfalaf twf tymor hwy, ein cynhadledd flynyddol gyntaf ym mis Mawrth 2022 oedd ***y gynhadledd â'r enw priodol "Arian i Dyfu"*** a gynhaliwyd mewn lleoliad yr un mor briodol, sef y Bathdy Brenhinol. Croesawyd bron i 100 o gynadleddwyr, ac fel un o'r digwyddiadau ffisegol cyntaf i'w gynnal ar ôl codi cyfyngiadau Covid, roeddem yn falch bod Will Jennings, Prif Swyddog Gweithredol Rabobank yn y DU, yn gallu ymuno â ni fel un o'r prif siaradwyr, gan ganolbwyntio ar fanteision cydweithredu ar draws y gadwyn gyflenwi bwyd a diod. Yn ystod y gynhadledd, cyfeiriasom at gyfleoedd cyllid gan sefydliadau cyllid fel Banc Datblygu Cymru a Banc Busnes Prydain, yn ogystal â'r gefnogaeth ariannol gan fanciau'r stryd fawr ar gyfer gwelliannau amgylcheddol a buddsoddiad sy'n gysylltiedig â chynaliadwyedd. Heb os nac oni bai bydd yr agenda Amgylcheddol, Gymdeithasol a Llywodraethol yn dod yn fwy a mwy pwysig i roddwyr benthyciadau a buddsoddwyr, a bydd angen i gynhyrchwyr bwyd a diod Cymru ddangos pwy ydynt er mwyn sicrhau cyllid. Yn y prynhawn, cafodd y cynadleddwyr amser i gael cyfarfodydd 1:1 â darparwyr cyllid i drafod eu hanghenion ariannol.

Rydym wedi datblygu perthnasoedd y clwstwr â banciau bwyd-amaeth arbenigol ymhellach drwy ein cyfres o ***ymweliadau darganfod cyllid.*** Ym mis Mai 2022, aethom i Gynhadledd F&A Next yn Food Valley yn yr Iseldiroedd. Roedd rhaglen y gynhadledd yn canolbwyntio ar fuddsoddi, cynaliadwyedd ac arloesi, ac roedd yn cael ei chynnal ar gampws Prifysgol Wageningen, uwchganolbwynt ecosystem lle mae ymchwil a datblygu, corfforaethau, cyllid ac entrepreneuriaid yn cydfodoli er mwyn buddsoddi a mynd i'r afael â rhai o brif themâu'r system fwyd fyd-eang. Roedd tua 40% o'r cynadleddwyr yn cynrychioli'r gymuned fuddsoddi, yn amrywio o gyn-egino ac egino i uwchraddio, ac roedd nifer o raglenni sbarduno bwyd-amaeth yn bresennol. Cadarnhaodd yr ymweliad yr angen i integreiddio'r ecosystem ymchwil, datblygu ac arloesi bwyd a diod â chyllid ac arian yn ogystal â galluogi'r clwstwr i wneud cysylltiadau newydd a ffurfio cysylltiadau â buddsoddwyr/darparwyr cyllid rhyngwladol a allai fod â diddordeb yn sector bwyd a diod Cymru.

Gan barhau â thema ymweliadau darganfod i fynd i'r afael â mynediad at gyfalaf, rydym wedi gweithio gyda Rabobank a Banc Oxbury ac rydym yn ddiolchgar i'r ddau ohonynt am drefnu ymweliadau i aelodau'r clwstwr. Cafodd aelodau'r clwstwr gyfle i rannu eu barn am yr her o ddod o hyd i gyllid, y cyfyngiadau cyffredin y maent yn eu hwynebu, a gyda phob banc, trafod dulliau gweithredu a chael gwell dealltwriaeth o'r hyn y mae banciau'n edrych amdano a beth yw'r risgiau yn eu barn hwy. Yn uchel ar yr agenda roedd buddsoddiadau yn gysylltiedig, a chynaliadwyedd a pherfformiad amgylcheddol, ac roedd 'cymwysterau carbon' yn dod yn fwy a mwy pwysig i fanciau. Y neges oedd bod angen i fanciau weld benthycwyr yn cymryd camau oherwydd ei bod yn ofynnol iddynt roi gwybod am hynny i Fanc Lloegr.

Mae'r clwstwr hefyd, fel rhan o'r heriau mynediad at gyfalaf a mynediad at gapasiti, wedi bod yn trafod ***modelau cydweithredu*** fel ffordd o sicrhau buddsoddiad mewn cyfleusterau tyfu, i brosesu mewn symiau mawr ac â hyblygrwydd gan alluogi nifer o gwmnïau i gael mynediad at gyfleoedd marchnad na fyddent yn gallu cael mynediad atynt fel arall ar eu pen eu hunain.

Rydym wedi parhau i gyflwyno aelodau'r clwstwr i'r ***Rhaglen Parod am Fuddsoddiad,*** ac rydym wedi derbyn atgyfeiriadau o'r rhaglen, sy'n galluogi aelodau'r clwstwr i gael cefnogaeth ddynodedig un i un er mwyn paratoi ar gyfer buddsoddiad tra'n elwa o'r cyfleoedd dysgu cymar-i-gymar a rhannu gwybodaeth a gynigir gan y clwstwr.



Bwyd a Diod Cymru
Clwstwr Uwchraddio Cynaliadwy
Food & Drink Wales
Sustainable Scale Up Cluster

MamGu Welshcakes

Dechreuodd Becky MamGu Welshcakes drwy fynd i wyliau a ffeiriau, â dim ond gasebo a gradell. Ers hynny mae wedi ehangu i leoliad mwy, ac mae bellach yn gweithredu ar dri safle yn Sir Benfro.

*"Roedden ni wedi cyrraedd pwynt lle roedden ni wedi mynd yn rhy fawr i'r ystafell gynhyrchu fach yn y caffi, yna fe ddaethon ni o hyd i uned bobi yng nghroes-goch. Yn ystod y cyfyngiadau symud tyfodd ein busnes ar-lein yn aruthrol. Roedd yn anhygoel. Erbyn hyn rydym yn pobi yn y becws yng nghroes-goch, ac yn dal i gynhyrchu ychydig yn y caffi, ac yn sydyn iawn rydym wedi mynd yn rhy fawr i'r becws hefyd!"*





***Sut mae'r Clwstwr Uwchraddio Cynaliadwy wedi eich cefnogi chi?***

Mae cefnogaeth y Clwstwr Uwchraddio Cynaliadwy, sydd â llawer iawn o brofiad, wedi bod yn fuddiol iawn. Mae'r Clwstwr wedi fy helpu i fynd i'r afael â materion ariannol drwy fy helpu i ddeall pob agwedd ar bethau fel llif arian, cadw llyfrau a chyfrifyddu. Yn y gorffennol roedden ni'n rhoi popeth i'r cyfrifwyr, yn gadael popeth yn eu dwylo nhw ac yn ymddiried ynddyn nhw. Erbyn hyn, fodd bynnag, mae gen i lawer gwell dealltwriaeth. Mae llawer o bethau i'w dysgu eto, ond drwy gymryd rheolaeth dros yr ochr yna o'r busnes rwy'n teimlo fy mod yn ei ddeall yn llawer gwell, ac y gallaf i helpu i'w dyfu mewn ffordd fwy cynaliadwy.

Mae'r Clwstwr wedi rhoi i mi'r offer i ddatblygu a thyfu fy musnes, i bwynt lle rydw i wedi mynd yn rhy fawr i'm safle presennol. Ar hyn o bryd rydym yn canolbwyntio ar gyfanwerthu. Doedden ni ddim wedi meddwl llawer am yr agwedd yma ar y busnes cyn hyn gan nad oedd gennym ni ddigon o le.

Rhai o'r heriau rydyn ni wedi eu hwynebu wrth dyfu, a rhywbeth oedd yn gwneud i mi feddwl ddwywaith cyn mentro yn y gorffennol mae'n debyg, yw pethau fel llif arian. Mae gorfod buddsoddi llawer o arian mewn cyfarpar newydd a safle newydd, heb sicrwydd y byddwch chi'n cael mwy o gwsmeriaid yn y diwedd, yn beth digon brawychus.

***Beth yw'r cynlluniau ar gyfer MamGu Welshcakes yn y dyfodol?***

Gan fod gennym ni fwy o le, byddwn yn gallu cynyddu cynhyrchiant yn hawdd, ac arbed ychydig o waith i ni'n hunain hefyd. Ar hyn o bryd rydyn ni wedi'n cyfyngu o ran beth y gallwn ei gynhyrchu, a does gennym ni ddim lle i becynnu pethau, felly gobeithio y bydd cael man mwy pwrpasol yn gwneud ein bywydau dipyn yn haws.

***Becky Swift, Rheolwr Gyfarwyddwr, MamGu Welshcakes***





# ADOLYGIAD O'R FLWYDDYN
CAPASITI



## MYNEDIAD AT GAPASITI

Rhwystr cyffredin arall i fusnesau bwyd a diod bach a chanolig yw diffyg capasiti. Mae'r cyfyngiadau capasiti a brofir gan aelodau'r clwstwr yn cynnwys diffyg gofod ffisegol, diffyg mynediad at bŵer/cyfleustodau sy'n cyfyngu ar gynhyrchiant, yr angen i fuddsoddi mewn offer cynhyrchu newydd, dim digon o bobl yn ogystal â ffactorau eraill sy'n cyfyngu. Gallai diffyg capasiti fod yn rhwystr i'r diwydiant cyfan hefyd, er enghraifft, diffyg capasiti yng Nghymru i gyflawni gwahanol fathau o fformatau pecynnau neu anghenion prosesu penodol er mwyn sicrhau arbedion maint cystadleuol.

Mae ein partneriaeth â'r ***Ganolfan Ymchwil Gweithgynhyrchu Uwch (AMRC Cymru)***, ym Mrychdyn, wedi helpu nifer o aelodau'r clwstwr i nodi ffyrdd o wella eu heffeithlonrwydd cynhyrchu. Roedd hyn yn dilyn ymweliad gan aelodau'r clwstwr â chyfleusterau'r Ganolfan ym mis Mehefin 2022. Yn dilyn llwyddiant cynhadledd "Arian i Dyfu" y llynedd, roeddem yn falch mai thema ein hail gynhadledd oedd capasiti, ***"Cynhyrchiant: Trefnu er mwyn Tyfu"***, a'i bod wedi cael ei chynnal ar safle AMRC Cymru ym mis Chwefror 2023.

Agorwyd y gynhadledd yn swyddogol gan y Gweinidog, Lesley Griffiths AS, a daeth dros 100 o gynadleddwyr iddi. Y siaradwraig gyntaf ar yr agenda oedd Prif Economegydd Santander, Frances Haque, a eglurodd y sefyllfa economaidd ddiweddaraf. Yn dilyn hynny cafwyd cyfres o drafodaethau panel yn canolbwyntio ar gynhyrchiant, yn cynnwys arbenigwyr a gweithgynhyrchwyr bwyd a diod o Gymru, a sesiynau 'sgwrs ...' gyda William Watkins, Rheolwr Gyfarwyddwr Radnor Hills, a Nick Evans, Rheolwr Gyfarwyddwr Banc Oxbury. Roeddem yn falch o weithio gyda Choleg Cambria a oedd yn gyfrifol am yr arlwyo ar y diwrnod – y bwyd wedi'i goginio a'i weini gan fyfyrwyr Lefel 3 y coleg. I gloi'r diwrnod, roedd cyfle i'r cynadleddwyr gael apwyntiadau wedi'u trefnu ymlaen llaw gydag un o'r un ar ddeg o ddarparwyr ariannol, buddsoddwyr a rheolwyr rhaglenni a oedd yn bresennol.

Rydym yn ddiolchgar i ***Nashville Food Group*** a ***Hensol Castle Distillery***, sy'n aelodau o'r clwstwr, am gael cynnal cyfarfodydd y clwstwr ac ymweliadau cyfeirio capasiti ar eu safleoedd. Mae'r ***ymweliadau cyfeirio*** hyn wedi rhoi cyfle i aelodau'r clwstwr gyfnewid gwybodaeth a dysgu gan ei gilydd, yn enwedig mewn perthynas â meysydd fel cynhyrchiant, mesur allbwn, integreiddio systemau cynhyrchu â systemau cyfrifyddu. Rydym hefyd wedi defnyddio'r cyfarfodydd hyn i drafod gweithgynhyrchu dan gontract fel ateb posibl i gyfyngiadau capasiti i rai aelodau o'r clwstwr. O ganlyniad i'r cyfarfodydd hyn, mae rhai aelodau o'r clwstwr yn trafod cydweithio â'i gilydd.

Mae aelodau'r clwstwr wedi cael mynediad at sesiynau ***mentora un i un*** ar faterion cynhyrchiant a chapasiti. Lle bo'n briodol, a rhwng aelodau o'r clwstwr nad oes cystadleuaeth rhyngddynt, rydym wedi dod â grwpiau bach o aelodau'r clwstwr at ei gilydd i rannu'r gwelliannau a nodwyd yn eu gweithrediadau unigol er mwyn helpu i adeiladu gwybodaeth am effeithlonrwydd cynhyrchu.

Mae'r clwstwr wedi meithrin perthnasoedd â busnesau peirianneg bwyd fel rhan o'n hymgysylltiad â rhanddeiliaid. Y nod fu helpu aelodau'r clwstwr i ddod o hyd i atebion peirianyddol lleol i'w problemau capasiti, sy'n cadw budd economaidd y gadwyn gyflenwi ehangach yng Nghymru.

Ac, wrth gwrs, mae'r cyfeiriadau at y ***rhaglen Parod am Fuddsoddiad*** wedi bod yn berthnasol er mwyn helpu i fynd i'r afael â rhwystr capasiti, gan fod aelodau o'r clwstwr sydd fel arfer yn ystyried buddsoddi mewn eiddo neu gyfarpar fel arfer yn chwilio am arian allanol i gyllido megis gweithgareddau adeiladu capasiti. Mae ymgysylltiad y clwstwr â rhanddeiliaid, megis darparwyr cyllid asedau, yn hollbwysig er mwyn helpu i fynd i'r afael â'r rhwystr hwn.



Bwyd a Diod Cymru
Clwstwr Uwchraddio Cynaliadwy
Food & Drink Wales
Sustainable Scale Up Cluster

Rob Cumine yw Rheolwr Gyfarwyddwr Capestone Organic Poultry, busnes prosesu cywion ieir sydd wedi bod yn masnachu ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro ers ychydig dros 20 mlynedd. Mae Capestone yn prosesu tua 60,000 o gywion ieir maes ac organig bob wythnos.



***Beth yw'r prif broblemau y mae Capestone wedi'u gweld yn y blynyddoedd diwethaf?***

Un o'r prif heriau i ni oedd olyniaeth. Roedd ar sylfaenydd Capestone, Justin Scale, eisiau camu yn ôl o'r gwaith rheoli o ddydd i ddydd, ac erbyn hyn mae'n brif gyfranddaliwr. Un o'r heriau oedd sut i newid y busnes o fod yn gwmni teuluol i fod yn rhywbeth mwy corfforaethol. Fe wnaeth y Clwstwr Uwchraddio Cynaliadwy ein helpu â'r broses honno, a gymerodd dros 18 mis, ac o ganlyniad rydym bellach yn rhan o gwmni Ffrengig corfforaethol mawr.

***Pa gefnogaeth rydych chi wedi ei chael gan y Clwstwr Uwchraddio Cynaliadwy?***

Mae'r Clwstwr Uwchraddio Cynaliadwy wedi bod o gymorth mawr i ni drwy wrando ar ein syniadau, oherwydd mae'r tîm wedi buddsoddi amser i geisio deall ein busnes.  Mae'r wybodaeth eang sydd ganddynt, a'r gwahanol arbenigwyr maen nhw wedi dod â nhw at ei gilydd i'n helpu ni, wedi bod yn amhrisiadwy, popeth o edrych ar effeithlonrwydd yn y ffatri a mewnbynnau a gweithgynhyrchu darbodus i gyfalaf a strwythuro ein dyled.



***Beth yw'r cynlluniau ar gyfer Capestone yn y dyfodol?***

Mae dyfodol Capestone yn gyffrous iawn. Mae gennym nifer o heriau yn y farchnad, ond rwy'n credu ein bod mewn gwell sefyllfa i oroesi a ffynnu nag yr oeddem ychydig flynyddoedd yn ôl. Erbyn hyn rydym yn rhan o'r grŵp LDC, sy'n un o'r busnesau prosesu cywion ieir mwyaf yn Ewrop, ac rydym yn awyddus i gynyddu ein capasiti ar y safle ymhellach, a gweithio gyda ffermwyr lleol eraill, a fydd yn dod â llawer o refeniw i'r economi ffermio leol, er mwyn cynyddu gwerthiant.

***Rob Cumine, Rheolwr Gyfarwyddwr, Capestone Organic***



***"Mae'r Clwstwr Uwchraddio Cynaliadwy yn bendant wedi'n helpu ni i greu busnes mwy gwydn. Â chefnogaeth y Clwstwr rydym wedi gallu sicrhau 200 o swyddi yma. Rydym hefyd wedi uwchsgilio ein gweithlu presennol yn sylweddol a chynyddu'r cyflog cyfartalog, gan ein bod wedi canolbwyntio mwy ar ansawdd y bobl rydym yn eu cyflogi, yn hytrach na niferoedd yn unig."***

# ADOLYGIAD O'R FLWYDDYN
## CYMWYSTERAU



### MYNEDIAD AT GYMWYSEDDAU

Busnesau bach a chanolig eu maint yw aelodau'r clwstwr, ac mae'n bosibl nad oes gan lawer ohonynt ystod lawn o arbenigedd gweithredol yn eu busnes; er enghraifft, tîm cyllid penodedig â chymwysterau proffesiynol, arbenigedd marchnata neu adnoddau dynol, allforio, logisteg neu reoli'r gadwyn gyflenwi. Rydym wedi gweithio gydag aelodau'r clwstwr er mwyn nodi meysydd lle mae'n bosibl bod bylchau yn eu sgiliau, a thrafod sut i fynd i'r afael â'r bylchau hyn.

Mae ein perthynas gref â Lantra, rhanddeiliaid allweddol, a'r partner cyflawni ar gyfer ***Food Skills Cymru***, wedi bod yn hollbwysig er mwyn helpu i fynd i'r afael â bylchau mewn sgiliau, ac rydym yn falch ein bod wedi cael cyfeirio aelodau'r clwstwr at y gefnogaeth bwysig hon sydd wedi cynnig cyllid rhannol ar gyfer hyfforddiant mewn ystod eang o sgiliau a chymwyseddau.

Roeddem yn falch o weithio mewn partneriaeth â rhanddeiliaid arall, ***Ysgol Fusnes Caerdydd***, i dreialu rhaglen lleoliadau graddedigion rheoli busnes ar gyfer sector bwyd a diod Cymru. Cafodd chwe myfyriwr BSc Rheoli Busnes 2il flwyddyn eu lleoli gyda busnesau bwyd a diod i weithio ar brosiectau penodol yn ymwneud â thyfu cynlluniau'r busnesau lletya. Gan ddechrau ym mis Ionawr 2022, cafodd y myfyrwyr ddealltwriaeth o'u busnes lletya, ei gynnyrch, amcanion a'r heriau a wynebir gan fusnesau bwyd bach a chanolig uchelgeisiol yng Nghymru. Nod y rhaglen leoliadau beilot oedd cyfrannu'n uniongyrchol tuag at effeithlonrwydd a/neu allu'r busnes lletya i dyfu. Yn ogystal â derbyn cefnogaeth ac arweiniad y busnes lletya, cafodd y myfyrwyr eu mentora gan diwtoriaid cyfadran o Ysgol Fusnes Caerdydd a chan arbenigwyr o'r diwydiant yn y Clwstwr Uwchraddio Cynaliadwy. Roedd y rhaglen beilot hefyd yn ceisio cyflwyno'r cyfleoedd gyrfaol amrywiol yn y sector bwyd a diod i raddedigion rheoli busnes na fyddent fel arall o bosibl wedi ystyried y sector fel cyrchfan yrfaol. Rydym wedi gweithio gydag Ysgol Fusnes Caerdydd a'r ***Academi Sgiliau Cenedlaethol Bwyd a Diod*** i ddatblygu llwybr gyrfa i'r sector bwyd a diod i fyfyrwyr Ysgol Fusnes Caerdydd a chyflwyno mwy o raddedigion busnes i'r cyfleoedd gyrfaol a gynigir gan y sector.

Er ein bod yn credu'n gryf bod denu graddedigion i'r sector yn allweddol ar gyfer llwyddiant a gwytnwch hirdymor y sector bwyd a diod, rydym hefyd yn credu bod mynediad at Gyfarwyddwyr Anweithredol profiadol hefyd yn hanfodol ar gyfer busnesau bwyd neu ddiod uchelgeisiol bach. Gall Cyfarwyddwyr Anweithredol gynnig arbenigedd mawr ei angen a/neu berthnasoedd i fusnes, gan ddarparu perthynas math cyfaill beirniadol a all fod yn sbardun ar gyfer twf yn y dyfodol, yn ogystal â gwella ansawdd y broses gwneud penderfyniadau, asesu risg a rheolaeth gyffredinol y busnes. Roeddem yn falch o lansio'r ***Rhaglen Cyfarwyddwyr Anweithredol*** yng ngwanwyn 2022. Drwy weithio â rhanddeiliaid fel Sefydliad y Cyfarwyddwyr a Chyfarwyddwyr Anweithredol profiadol, mae gennym bellach 22 Cyfarwyddwr Anweithredol sydd wedi mynegi diddordeb mewn gweithio gyda busnesau bwyd a diod uchelgeisiol bach a chanolig eu maint. Fel rhan o'r rhaglen, rydym wedi cynnal dau ***bŵt-camp Cyfarwyddwyr Anweithredol*** sydd wedi rhoi cyfle i fusnesau a Chyfarwyddwyr Anweithredol ddeall mwy am rôl y Cyfarwyddwr Anweithredol, y cyfrifoldebau cyfreithiol, a manteision Cyfarwyddwyr Anweithredol.

Yn hydref 2022, lansiodd y Clwstwr Uwchraddio Cynaliadwy yr adran ***Banc Gwybodaeth*** ar ein gwefan. Mae'r Banc Gwybodaeth yn cynnwys adnoddau defnyddiol, canllawiau, fideos a choed penderfyniadau, a'i nod yw cefnogi aelodau'r clwstwr â rhai o'r penderfyniadau anodd y mae angen eu gwneud wrth dyfu busnesau.

Mae aelodau'r clwstwr hefyd wedi elwa o offer a thempledi amrywiol, er enghraifft y ***model amcangyfrif cost*** a gafodd ei ddatblygu a'i dreialu gennym ar y cyd ag aelodau'r clwstwr ac â'r nod o alluogi busnesau i amcangyfrif cost eu cynnyrch yn fwy effeithiol. Mae'r offeryn hwn wedi bod yn hollbwysig eleni, â chwyddiant mewnbwn yn mynd i ddigidau dwbl, a chynnydd canran tri digid ar gyfer ynni. Mae trafodaethau â chwsmeriaid masnach wedi galw am waith modelu a rhagfynegi gofalus, a sylfaen hynny yw'r offeryn model cost. Mae cyflwyno'r model cost hefyd wedi helpu rhai busnesau i ystyried gwahanol fodelau adennill costau, gan gynnwys trefniadau llyfr agored sydd wedi golygu bod aelodau'r clwstwr wedi gallu gwneud mwy o fusnes yn hyderus.

Mae ein cyfres o ***fideos dirnadaeth ariannol***, sydd ar gael drwy'r Banc Gwybodaeth, wedi cael eu profi gan aelodau'r clwstwr. Nod cyffredinol y

# ADOLYGIAD O'R FLWYDDYN
## CYMWYSTERAU PARHAU

fideos hyn yw rhoi gwybodaeth sylfaenol i aelodau'r clwstwr am gyfrifyddu, cyllid a gwybodaeth rheoli a fydd yn ei thro yn eu helpu i fesur a gwella eu perfformiad ariannol a'u perfformiad busnes.

Flwyddyn ers ei sefydlu, mae aelodau grŵp diddordeb arbennig y Clwstwr Uwchraddio Cynaliadwy, ***Pontio'r Bwlch***, yn ystyried sut y mae ffurfio'r grŵp wedi bod o fudd i'r aelodau mewn cyfres o fideos fel rhan o Fis Hanes Pobl Dduon.

Nod Pontio'r Bwlch, a ffurfiwyd yn 2021, yw mynd i'r afael â rhwystrau a wynebir gan entrepreneuriaid o leiafrifoedd ethnig ac aelodau o'r gymuned wrth iddynt geisio sefydlu a thyfu busnesau, fel y nodwyd mewn ymchwil a wnaethpwyd gan Fanc Busnes Prydain ac y cyfeiriwyd atynt hefyd yn Adroddiad Rose. Mae'r grŵp yn cael ei arwain ar y cyd gan Maggie Ogunbanwo, yr entrepreneur bwyd, sydd hefyd yn aelod o Fwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru, a Bernie Davies, siaradwr TEDx ac enillydd gwobr Cynhwysiant ac Amrywiaeth.

Yn hydref 2021, roeddem yn falch iawn o gynnal taith o amgylch BlasCymru/TasteWales i aelodau o grŵp diddordeb arbennig Pontio'r Bwlch i arddangos talentau ac arloesi yn sector bwyd a diod Cymru. Roedd cyfle i aelodau'r grŵp gyfarfod arbenigwyr a darparwyr cyllid a allai eu cefnogi â syniadau busnes a thwf. Mae'r grŵp diddordeb arbennig wedi cynnig mentora 1:1 ar adeiladu busnesau bwyd a diod llwyddiannus a mynediad at arbenigedd ariannol.





# ADOLYGIAD O'R FLWYDDYN
## HYDER





### HYDER I UWCHRADDIO

Ethos y Clwstwr Uwchraddio Cynaliadwy yw y bydd aelodau'r clwstwr, drwy helpu i fynd i'r afael â heriau mynediad at gyfalaf, capasiti, a chymwyseddau, yn fwy hyderus ynglŷn â'u gallu i dyfu mewn ffordd gynaliadwy o safbwynt ariannol.

Mae 2022 wedi bod yn flwyddyn gythryblus i fusnesau yn gyffredinol, ac nid i'r sector bwyd a diod yn unig. Ac oherwydd y fath gythrwfl, mae'r angen am hyder i dyfu yn fwy nag erioed. Mae dylanwadau allanol yn effeithio ar bob busnes; mae ffactorau gwleidyddol, amgylcheddol, economaidd, cymdeithasol, cyfreithiol a thechnegol i gyd yn chwarae eu rhan, ac yn dylanwadu ar ba mor hyderus y mae busnesau unigol yn teimlo ynglŷn â'u dyfodol, o safbwynt goroesi, adfywio neu ffynnu.

Yn ôl yr ystadegau ansolfedd diweddaraf a gyhoeddwyd gan Y Gwasanaeth Ansolfedd , roedd nifer y cwmnïau a aeth i'r wal yn Ch1 2023 4% yn llai nag yn Ch4 2022, ond 18% yn fwy nag yn Ch1 2022. Arhosodd nifer y diddymiadau gwirfoddol gan gredydwyr yn agos at y lefel chwarterol uchaf ers dechrau'r gyfres yn 1960 (Ch2 2022). Cynyddodd nifer y diddymiadau gorfodol hefyd, ond arhosodd ychydig yn is na'r lefelau a welwyd cyn pandemig y coronafeirws (COVID-19).

*Ansolfedd Cwmnïau Cofrestredig, Cymru a Lloegr, Ch1 2003 i Ch1 2023, wedi'i addasu'n dymhorol*




*Ffynhonnell: https://www.gov.uk/government/statistics/monthly-insolvency-statistics-february-2023/commentary-monthly-insolvency-statistics-february-2023*

Yn ôl erthygl yn The Grocer ym mis Ebrill 2023, gwelwyd cynnydd o fwy na 250% mewn methiannau ymysg gweithgynhyrchwyr yn y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Ionawr 2023, wrth i 143 o fusnesau fynd i'r wal, mewn cymhariaeth â dim ond 39 yn y 12 mis blaenorol. Roedd yr erthygl yn nodi bod "cwmnïau bwyd a diod yn cael anhawster i gadw eu pennau uwchben y dŵr wrth iddynt wynebu cynnydd aruthrol mewn costau ynni, tarfu ar y gadwyn gyflenwi a llai o wariant gan ddefnyddwyr, ynghyd â phrisiau deunydd crai uwch o ganlyniad i'r rhyfel yn Wcráin".

Ym mis Hydref 2022, ar y cyd â'r Rhaglen Mewnwelediad, cynaliasom ***weminar Mewnwelediad Economaidd*** er mwyn helpu aelodau o'r clwstwr i ystyried eu modelu hirdymor ar gyfer chwyddiant, costau mewnbwn, a'r galw gan ddefnyddwyr. Rydym yn cydnabod y gallai'r rhesymau pam y mae ar aelodau'r clwstwr angen cyllid fod wedi newid o gyfalaf twf i gyfalaf gweithio, ond er hyn disgwylir iddynt ddangos i fanciau/buddsoddwyr eu bod wedi deall yr hinsawdd economaidd, a beth fydd eu costau mewnbwn a'r galw tebygol gan gwsmeriaid, a dylent fod wedi modelu ar gyfer gwahanol sefyllfaoedd a allai godi. Mae rheolwyr y clwstwr wedi bod yn gweithio gyda'r aelodau er mwyn datblygu eu modelau ariannol.

Mae'n ddealladwy bod busnesau bwyd a diod yn teimlo'n ddigalon wrth wynebu rhagolygon economaidd mor heriol, ond gall y sgiliau a'r rhwydweithiau y mae aelodau o'r clwstwr wedi'u cael drwy'r Clwstwr Uwchraddio Cynaliadwy eu rhoi mewn sefyllfa dda; mae modelu a chynllunio ar gyfer senarios, rhagamcanion rheolaidd, sylw manwl i reoli arian, deall mewnbynnau cost, gweithrediadau mwy effeithlon, perthnasoedd cryf â darparwyr cyllid, a rheoli/lliniaru risg i gyd wedi bod yn themâu trawsbynciol yn y clwstwr, â'r nod o well hyder ymysg aelodau'r clwstwr, p'un a yw'r uchelgeisiau wedi newid o oroesi i dyfu, neu o dyfu i oroesi.



# EDRYCH TUA'R DYFODOL




Er gwaetha'r darlun economaidd digalon, mae'n bwysig deall yr effaith a'r gwerth economaidd ehangach y mae'r sector bwyd a diod yn ei ddarparu i Gymru.

Rydym wedi comisiynu prosiect yn ddiweddar i ymchwilio a darparu tystiolaeth o effaith lluosydd busnesau bwyd a diod sy'n tyfu ar economi ehangach Cymru. Rydym yn falch o gael gweithio gyda Wavehill ar y gwaith ymchwil pwysig hwn; er bod astudiaethau eraill wedi bod yn edrych ar effaith lluosydd mewn meysydd megis caffael cyhoeddus, nid ydym yn gwybod am astudiaeth debyg sy'n canolbwyntio ar y diwydiant bwyd a diod. Gobeithio y bydd canfyddiadau'r ymchwil hwn yn ychwanegu at y corff o dystiolaeth ynglŷn â buddsoddiad mwn busnesau bwyd a diod bach a chanolig eu maint yng Nghymru sydd â "seiliau cadarn", ac y byddant yn dangos effaith economaidd ehangach sector bwyd a diod llewyrchus a gwydn yng Nghymru a'i bwysigrwydd fel economi sail.

Mae'r canfyddiadau cychwynnol yn dangos bod Cymru yn gwneud cystal ag y gall yn y rhan fwyaf o achosion drwy gadw cymaint ag sy'n bosibl o'r gadwyn gyflenwi yng Nghymru. Er hyn, mae'r rhan fwyaf o'r offer prosesu a phecynnu bwyd sector benodol yn cael eu cynhyrchu a'u caffael o'r tu allan i Gymru. Mae hwn yn faes rydym wedi'i nodi, drwy weithio gydag AMRC a chwmnïau peirianneg bwyd yng Nghymru, fel cyfle i ddatblygu cydweithredfeydd er mwyn dod â chyfarpar prosesu a phecynnu yn ôl i Gymru. Mae'r ymchwil hefyd wedi dangos bod cynhyrchiant cnydau y gellir eu cynaeafu â chombein yn gymharol isel, sy'n golygu bod y rhan fwyaf o'r mewnbynnau protein ar gyfer da byw yn dod o'r tu allan i Gymru. Wrth gwrs, mae blawd, siwgr a chynhwysion allweddol eraill hefyd yn cael eu mewnforio. Mae hyn yn dangos cyfle posibl i ystyried mwy o gnydau y gellir eu combeinio gan fod geneteg a hinsawdd yn cynnig cyfleoedd, yn ogystal â gwella elfen brosesu a gwerth ychwanegol cynhwysion cyn eu defnyddio mewn bwyd a diod o Gymru.

Digwyddiad pwysig iawn i aelodau'r clwstwr oedd lansio'r Cynllun Sbarduno Busnesau Bwyd (FBAS) yn ddiweddar. Mae'r cynllun wedi'i gynllunio er mwyn helpu busnesau sy'n gallu cynnig manteision amlwg a mesuradwy i'r diwydiant bwyd a diod yng Nghymru. Mae'n ymdrin â buddsoddiadau cyfalaf wrth brosesu cyfarpar a seilwaith a gallai helpu aelodau'r clwstwr i sicrhau cyfalaf y mae arnynt ei angen ar gyfer eu huchelgeisiau uwchraddio. Mae rhagor o wybodaeth am FBAS i'w weld yma: ***https://www.llyw.cymru/cynllun-sbarduno-busnesau-bwyd-canllawiau-html***

Roeddem yn falch o gael cadarnhad ynglŷn ag estyniad byr i'r cyllid hyd fis Mehefin. Bydd hyn yn caniatáu i ni ddal i ddarparu budd i aelodau'r clwstwr ar ôl y dyddiad gorffen gwreiddiol, sef mis Mawrth 2023. Rydym yn gobeithio y bydd cyllid yn dal i gael ei ddarparu ar ôl hynny i helpu busnesau bwyd a diod Cymru i dyfu o ficro i fach, o fach i ganolig ac o ganolig i fawr. Mae sector bwyd a diod sefydlog a llewyrchus yng Nghymru yn bwysig i gymunedau ac economïau gwledig a threfol, a bydd yn galluogi buddsoddiad mewn cynaliadwyedd tra'n dathlu tarddiad y cynnyrch a diwylliant Cymru.



Clwstwr Uwchraddio Cynaliadwy

# ADRODDIAD BLYNYDDOL

## 2022-2023

Bwyd a Diod Cymru
Clwstwr Uwchraddio Cynaliadwy
Food & Drink Wales
Sustainable Scale Up Cluster

Cyflwynir gan:

bicinnovation